futurefit
Shaping healthcare together


NHS

Gwella gwasanaethau ysbyty i bobl yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru


Beth ydy'ch barn chi?



Cynnwys

		Tudalen
	Cyflwyniad	4
	Ein cynlluniau	6
	Pam newid?	8
	2 opsiwn	12
	Gwasanaethau yn y ddau ysbyty	16
	Gwasanaethau strôc	19
	Teithio i'n hysbytai	21
	Bod yn deg i bawb	23
	Yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio	25
	Sut y gallwch chi chwarae rhan	26
	Beth sy'n digwydd nesaf?	27

Cyflwyniad



Dyma ein cynllun i wella gwasanaethau ysbyty i bobl yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru.

Mae wedi'i ysgrifennu gan Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Telford & Wrekin.



Y ni ydy'r sefydliadau sy'n gyfrifol am brynu a phenderfynu ar wasanaethau gofal iechyd yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin ar eich rhan.



Mae'r ddogfen yma:

- Yn dangos sut rydyn ni eisiau newid y gwasanaethau ysbyty



- Yn esbonio'r ddau opsiwn ac yn gofyn ichi am eich barn chi



- Yn dweud wrthych chi am yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio



- Yn esbonio sut rydyn ni'n bwriadu helpu pobl i deithio i'r ysbytai



- Yn esbonio am fod yn deg i bawb



- Yn dweud wrthych chi sut y gallwch chithau chwarae rhan a beth fydd yn digwydd nesaf

Ein cynlluniau



Rydyn ni eisiau newid y gwasanaethau ysbyty sy'n cael eu darparu yn:

- Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Amwythig



- Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford



Rydyn ni eisiau i un ysbyty ddarparu gwasanaethau **gofal argyfwng**...



... ac i'r ysbyty arall ddarparu gwasanaethau **gofal cynlluniedig**.



Gofal lle gallech chi farw os na fyddwch chi'n cael y gofal iechyd sydd ei angen arnoch chi ydy **Gofal Argyfwng.** Dydy'r gofal heb ei gynllunio.



Llawdriniaeth neu driniaeth rydych chi wedi gwybod amdani ers tro ydy **Gofal Cynlluniedig.**



Fe fyddai gan y ddau ysbyty **Ganolfan Gofal Brys** a fyddai ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.



Pan mae angen help arnoch chi ar unwaith – ond dydych chi ddim yn debygol o farw – ydy **Gofal Brys.**

Pam newid?



Mae angen inni wneud yn siŵr ein bod ni'n darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel, i bob claf.

Dydy hyn ddim bob amser yn digwydd ar hyn o bryd.

Digon o feddygon



Does yna ddim digon o feddygon yn y wlad.

Weithiau, does gennon ni ddim digon o feddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill ar ddyletswydd.



Mae hyn yn rhoi ein staff dan bwysau mawr ac mae rhai ohonyn nhw wedi gadael.

Rydyn ni wedi gorfod cael staff dros dro. Mae hyn yn ddrud iawn.



Fe fydd meddygon a staff yn hapusach i weithio lle mae Gofal Argyfwng a Gofal Cynlluniedig ar safleoedd ar wahân.



Y ffordd o hyfforddi meddygon

Mae meddygon ysbyty'n hyfforddi i fod yn arbenigwyr mewn un agwedd ar ofal iechyd.

Mae hi'n anodd cael y nifer iawn o arbenigwyr yn y ddau ysbyty.



Trwy symud **gofal argyfwng a gofal cynlluniedig** i wahanol leoedd gallwn ni wneud yn siŵr bod gennon ni'r nifer iawn o feddygon arbenigol ym mhob ysbyty.

Gwell gofal i gleifion

Ar hyn o bryd:



- Mae rhai cleifion yn gorfod aros yn hirach i weld meddyg mewn argyfwng

- Mae rhai llawdriniaethau cynlluniedig wedi'u canslo oherwydd bod y meddyg wedi mynd i helpu mewn argyfwng



Trwy symud **gofal argyfwng** a **gofal cynlluniedig** i wahanol leoedd fe fydd meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn gallu gweld pobl yn gyflym.

Trin pobl mewn argyfwng



Mae ein Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) yn trin gormod o bobl sydd ddim angen gofal argyfwng.



Trwy sefydlu Gwasanaeth Gofal Brys yn y ddau ysbyty gallwn ni:

- Weld pobl sydd angen help ar frys ond sydd ddim yn debygol o farw
- Gadael i'n Hadran Argyfwng ganolbwyntio ar argyfyngau go iawn

Mae pobl yn byw yn hirach



Erbyn hyn, mae yna fwy o lawer o bobl yn byw â salwch tymor hir.

Fe fydd angen gofal ysbyty ar y bobl yma o dro i dro.

Fe fydd y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud yn ein helpu ni i ddarparu'r gofal gorau i bawb.

Gwerth da am arian



Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr dydyn ni ddim yn gwastraffu arian.

Mae angen inni ddefnyddio ein staff a'n hadeiladau mewn ffordd sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian.



Fe fydd y cynlluniau yma'n ein helpu ni i wneud mwy â'r arian sydd gennon ni.

Llai o amser yn yr ysbyty



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu mynd adref o'r ysbyty mor fuan â phosibl.



Rydyn ni'n gwneud hyn trwy gael mwy o ofal iechyd i bobl yn eu cartref.

2 Opsiwn

Opsiwn 1:



Fe fyddai **Gofal Argyfwng 24 awr** yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Amwythig



Fe fyddai **Gofal Cynlluniedig** yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford



Yn Ysbyty Brenhinol Amwythig, fe fyddai'r canlynol hefyd ar gael:

- Llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth
- Gwasanaethau i fenywod a phlant sydd angen aros yn yr ysbyty



Yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, fe fyddai'r canlynol hefyd ar gael:



- Llawdriniaethau cynlluniedig i bobl sydd angen aros yn yr ysbyty




- Llawdriniaethau i bobl sydd ddim angen aros yn yr ysbyty



- Endosgopi – rhoi camera y tu mewn i'ch corff



- Gwasanaethau i fenywod sydd â phroblemau â'u bronnau



- Wardiau i bobl sy'n gorfod aros yn yr ysbyty

Opsiwn 2:



Fe fyddai **Gofal Argyfwng 24 awr** yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford



Fe fyddai **Gofal Cynlluniedig** yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Amwythig



Yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, fe fyddai'r canlynol hefyd ar gael:

- Llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth
- Gwasanaethau i fenywod a phlant sydd angen aros yn yr ysbyty



Yn Ysbyty Brenhinol Amwythig, fe fyddai'r canlynol hefyd ar gael:



- Llawdriniaethau cynlluniedig i bobl sydd angen aros yn yr ysbyty




- Llawdriniaethau i bobl sydd ddim angen aros yn yr ysbyty



- Endosgopi – rhoi camera y tu mewn i'ch corff



- Gwasanaethau i fenywod sydd â phroblemau â'u bronnau



- Wardiau i bobl sy'n gorfod aros yn yr ysbyty

Gwasanaethau yn y ddau ysbyty

Beth bynnag fydd yn digwydd, fe fydd y gwasanaethau yma dal ar gael yn y ddau ysbyty:



Canolfannau Gofal Brys 24 awr newydd

Fe fyddai'r canolfannau newydd yma'n darparu mwy na'r hen ganolfannau.



Fe fyddai ganddyn nhw ardal plant ar wahân.

Fe fyddai'r staff a'r meddygon wedi'u hyfforddi i roi gofal brys i oedolion a phlant.



Fe fyddwch chi'n gallu:

- Mynd yno unrhyw adeg a chael eich asesu'n gyflym
- Cael eich trin ar gyfer mân anafiadau a chlefydau
- Cael profion – gan gynnwys profion gwaed a phrofion pelydr-x





- Mynd mewn ambiwlans os ydy'r parafeddygon o'r farn mai dyma sydd orau
- Cael asesiad ar gyfer materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl



Gwasanaethau Menywod a Phlant

Fe fyddai'r mwyafrif o fenywod a phlant dal yn derbyn gofal a thriniaeth yn yr un lle ag y maen nhw'n ei dderbyn nawr.



Fe fydd y gwasanaethau yma ar gael yn y ddau ysbyty:

- Uned dan arweiniad bydwragedd, i fenywod ddod â'u babanod i'r byd



- Archwiliadau prawf a sganiau i fenywod beichiog
- Gwasanaethau iechyd i fenywod



- Gwasanaethau iechyd i blant sydd ddim angen aros yn yr ysbyty
- Gwasanaethau iechyd i fabanod sydd newydd eu geni, ac i'w mamau

Gwasanaethau cleifion allanol



Claf sydd ddim angen aros yn yr ysbyty ydy **claf allanol.**



Mae'r mwyafrif o'n cleifion yn dod i mewn i'n hysbytai i'r Adran **Cleifion Allanol.**

Fe fydd y mwyafrif helaeth o gleifion yn dal i fynd i apwyntiadau cleifion allanol yn yr un ysbyty ag y maen nhw'n mynd iddo nawr.

Profion




Mae llawer o'n cleifion yn dod i mewn i'r ysbyty oherwydd bod eu meddyg teulu wedi gofyn am brofion ar eu cyfer.

Mae'r profion yma'n gallu bod yn brofion gwaed, yn brofion pelydr-x neu'n sganiau.



Fe fydd y mwyafrif helaeth o'n cleifion yn dal i fynd am brofion yn yr un ysbyty ag y maen nhw'n mynd iddo nawr.

Gwasanaethau strôc



Mae strôc yn digwydd pan dydy gwaed ddim yn gallu cyrraedd eich ymennydd.

Mae rhannau o'ch ymennydd yn marw.



Mae'n ddifrifol iawn ac fe allech chi farw.



Mae'n bwysig eich bod chi'n cyrraedd yr ysbyty mor fuan â phosibl i gael triniaeth.



Roedd gwasanaethau strôc yn arfer bod yn y ddau ysbyty.



Rhyw ychydig o flynyddoedd yn ôl, fe wnaethon ni greu un gwasanaeth strôc yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford.



Mae cael un gwasanaeth yn well i gleifion gan fod meddygon a nyrsys strôc yn gallu eu trin yn gyflym.



Fe allech chi farw os y byddwch chi'n cael strôc, felly mae'n bwysig bod y gwasanaeth ar yr un safle â'r safle Gofal Argyfwng.



Os mai Opsiwn 1 fydd yn cael ei ddewis, mae hyn yn golygu y byddai'r gwasanaeth strôc yn symud i Amwythig.

Teithio i'n hysbytai



Rydyn ni wedi bod yn edrych ar sut mae'r cynlluniau yma'n effeithio ar ffordd pobl o deithio i'r ysbyty.

Fe fydd y mwyafrif o bobl yn dal i fynd i'r un ysbyty ar gyfer y rhan fwyaf o bethau.



Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ambiwlansys deithio yn bellach i fynd â rhywun i'r Adran Argyfwng.



Mae parafeddygon nawr yn rhoi profion a thriniaeth i bobl mewn argyfwng.

Maen nhw'n gallu penderfynu ar y lle gorau i bob claf a mynd â nhw yn syth yno.

Cyfleusterau parcio a theithio gwell i ysbytai



Rydyn ni'n edrych ar:

- Ddarparu mwy o leoedd parcio ceir yn y ddau ysbyty




- Ffyrdd gwell i bobl seiclo i'r ddau ysbyty



Rydyn ni hefyd yn meddwl am:

- Ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am lle y maen nhw'n gallu parcio

- Darparu gwybodaeth am deithio



- Darparu gwybodaeth am ffyrdd i gael help â chostau teithio

- Gwella gwasanaethau bws i'r ysbytai

Bod yn deg i bawb



Mae'n rhaid i'n cynlluniau fod yn deg i bobl o wahanol:

- Gredoau crefyddol

Ystyr **credoau crefyddol** ydy lle mae pobl yn rhan o wahanol grefyddau fel Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth a llawer o rai eraill.



- Barn wleidyddol

Ystyr **barn wleidyddol** ydy lle mae pobl yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r gwahanol bleidiau yn y llywodraeth neu yn y cyngor lleol.



- Hil

Ystyr **hil** ydy'ch grŵp ethnig. Y cefndir rydych chi wedi'i etifeddu oddi wrth ein rhieni a'ch teidiau a'ch neiniau ydy hwn.



- Oedran

Ystyr **oedran** ydy pa mor hen ydych chi. Mae pobl angen gwahanol bethau os ydyn nhw'n ifanc neu'n hen.



- Cyfeiriadedd rhywiol

Ystyr **Cyfeiriadedd Rhywiol** ydy pan mae pobl yn cael rhywun o'r un rhyw neu'r rhyw arall yn ddeniadol



Mae'n rhaid inni roi cyfle cyfartal i:

- Ddynion a menywod a phobl sy'n **drawsryweddol**



Ystyr **trawsryweddol** ydy lle mae rhywun wedi newid ei r(h)ywedd



- Pobl sydd wedi priodi, sy'n sengl, sydd wedi ysgaru neu sy'n byw gyda'i gilydd



- Pobl sydd ag anabledd a phobl sydd heb anabledd



- Pobl sydd â phlant neu eraill sy'n dibynnu arnyn nhw a phobl sydd heb blant neu eraill sy'n dibynnu arnyn nhw

Yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio



Rydyn ni o'r farn mai Opsiwn 1 ydy'r un gorau.

Hynny ydy, cael gofal argyfwng yn Amwythig a chael llawdriniaethau cynlluniedig yn Telford.



Rydyn ni o'r farn mai dyma sydd orau oherwydd:

- Bod Amwythig wedi hen arfer â thrin y bobl â'r anafiadau mwyaf difrifol

- Fe fyddai'n rhaid i lai o bobl deithio pellteroedd hirach i gyrraedd Ysbyty Brenhinol Amwythig



- Mi fyddai'n haws i'r rhan fwyaf o bobl hŷn. Mae pobl hŷn yn defnyddio mwy ar wasanaethau argyfwng na grwpiau oedrannau eraill



- Cael gofal argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig fyddai'n cynnig y gwerth gorau am arian dros amser hir

Sut y gallwch chi chwarae rhan

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y ddogfen yma.



Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi ac mae yna lawer o ffyrdd i roi gwybod inni:

- **Llenwi'r arolwg** ar ein gwefan: **www.nhsfuturefit.org.**

  Ffoniwch 0300 3000 903 i gael help i'w lenwi neu i gael copi wedi'i argraffu o'r arolwg



- **Dod i ddigwyddiad:** Fe fyddwn ni'n cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ar draws y sir lle gallwch chi gael gwybod mwy am y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig, cyfarfod â'n meddygon a'n nyrsys a gofyn cwestiynau.

  Mae yna ragor o wybodaeth am y rhain ar ein gwefan: www.nhsfuturefit.org



- Ysgrifennu atom ni yn:

  FREEPOST NHS FF CONSULTATION

  (Dyna'r cyfan sydd angen ichi ei roi ar yr amlen – does ddim angen rhoi stamp arni)



- Ein ffonio: **0300 3000 903 (Gallwch chi adael neges unrhyw amser)**

- Anfon e-bost atom ni: **nhsfuturefit@nhs.net**
- Ein dilyn ni ar Twitter: **@NHSFutureFit**
- Ein dilyn ni ar Facebook: **facebook.com/nhsff**

Beth sy'n digwydd nesaf?



Pan fydd yr ymgynghoriad wedi cau ganol nos Ddydd Mawrth **4ydd Medi 2018** fe fyddwn ni'n edrych ar farn pawb ac yn ysgrifennu adroddiad.



Fyddwn ni ddim yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'r cynlluniau tan ar ôl inni wrando ar farn pawb sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.



Gallwch chi lawrlwytho pob adroddiad o'n gwefan yn: **www.nhsfuturefit.org**



Fe fydd Cyd-bwyllgor o Grwpiau Comisiynu Clinigol Sir Amwythig a Telford & Wrekin yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Cyfieithiad o'r fersiwn Easy Read gan **easy-read-online.co.uk**

Gwefan: **www.nhsfuturefit.org**
Ffôn: **0300 3000 903**
E-bost: **nhsfuturefit@nhs.net**
Twitter: **@NHSFutureFit**
Facebook: **facebook.com/nhsff**